


DATGANIAD NEWYDDION I YSGOLION A CHOLEGAU *Medi 2020*

Cynnydd pellach yn y niferoedd sy'n sefyll Mathemateg a Mathemateg Bellach Safon Uwch yng Nghymru

Eleni dyfarnwyd y gyfran uchaf erioed o gymwysterau Mathemateg Bellach i fyfyrwr Mathemateg Safon Uwch yng Nghymru sef 16.3%. Am y tro cyntaf ers 2003 y gyfran hon yw'r uchaf yn y DU. Mae'r cofrestriadau ar gyfer Mathemateg UG, Safon Uwch a Mathemateg Bellach hefyd wedi cynyddu. Yn ôl y Cyd-gyngor Cymwysterau (2020) digwyddodd y newidiadau canlynol yn nifer y cymwysterau Mathemateg a Mathemateg Bellach a ddyfarnwyd yng Nghymru er 2019:

- Mae niferoedd Mathemateg Safon Uwch wedi cynyddu o 3585 i 3711, cynnydd o 1.9%;
- Mae niferoedd Mathemateg Bellach Safon Uwch wedi cynyddu o 550 i 605, cynnydd o 10%;
- Mae niferoedd Mathemateg UG wedi cynyddu o 4627 i 5146, cynnydd o 11%;
- Mae niferoedd Mathemateg Bellach UG wedi cynyddu o 457 i 675, cynnydd o 48%.

Graff 1. Canrannau'r myfyrwyr Mathemateg Safon Uwch sydd wedi sefyll Mathemateg Bellach Safon Uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ers 2010 (<https://www.icq.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/A-Level-and-AS-Results-Summer-2020.pdf>)



Bu rhai newidiadau yng nghyfranogiad rhywedd eleni:

- Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, perfformiodd merched yn well na neu ar lefel gymharol gyda bechgyn mewn Mathemateg Safon Uwch a Mathemateg Bellach;
- Mae nifer y merched y dyfarnwyd Mathemateg Safon Uwch iddynt wedi cynyddu 3.6%;
- Mae nifer y merched y dyfarnwyd Mathemateg Bellach Safon Uwch llawn iddynt wedi gostwng 6%;
- Mae nifer y merched y dyfarnwyd Mathemateg UG iddynt wedi cynyddu 9.5%.
- Mae nifer y merched y dyfarnwyd Mathemateg Bellach UG iddynt wedi cynyddu 41%.

Er bod dyfarnu graddau yn wahanol eleni oherwydd canslo arholiadau, mae'r RhGMBC yn falch bod y canlyniadau'n parhau'n gryf gyda llawer mwy o bobl ifanc yn gallu cyrchu cymwysterau Mathemateg Bellach a symud ymlaen i addysg uwch. Mae cymwysterau Mathemateg Bellach yn parhau i fod yn ofynnol neu yn ffafriol ar gyfer dechrau rhai rhaglenni gradd yn y DU ac mae rhai prifysgolion yn gofyn i fyfyrwyr sefyll arholiadau ychwanegol ac uwch mewn mathemateg.

Dywedodd Isabella Carter, cyn-ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath a astudiodd Fathemateg Bellach trwy RGMBC ac a gafodd A* mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach ac sy'n edrych i astudio Meddygaeth: *“Rwy'n credu bod astudio mathemateg bellach yn hynod fuddiol, nid yn unig ar gyfer y rhai sy'n anelu at astudio mathemateg yn y brifysgol, ond hefyd ar gyfer unrhyw gwrs STEM. Trwy astudio mathemateg bellach, rwyf wedi gallu datblygu fy sgiliau meddwl beirniadol, rhesymu meintiol a sgiliau datrys problemau. O ganlyniad, llwyddais i gael 5A*, gan gynnwys mathemateg bellach, sydd wedi fy annog i gymryd blwyddyn ychwanegol yn astudio a newid fy newisiadau addysg uwch er mwyn gwneud cais i ysgol feddygol. Rwy'n sicr bod y sgiliau rydw i wedi'u datblygu trwy gydol y cwrs mathemateg bellach wedi rhoi sylfeini cryf i mi ymgymryd â gradd feddygol. Trwy'r rhaglen gymorth mathemateg bellach, rwyf wedi cael cefnogaeth wych gan fy nhwtoriaid ar-lein a dosbarthiadau adolygu personol yn aml. Rhywbeth a gefais yn arbennig o ddiddorol oedd mynychu dosbarthiadau 'datrys problemau mathemategol anarferol'; roedd yn gyfle gwych i ddatblygu fy sgiliau rhesymu meintiol a datrys problemau.”*

Er bod diwedd y flwyddyn yn wahanol i ddysgwyr yng Nghymru oherwydd cau ysgolion, roedd RhGMBC yn falch bod mwy na 3000 o fyfyrwyr wedi cyrchu rhaglen helaeth o adnoddau hunan-astudio a dosbarthiadau ar-lein yng ngwanwyn/haf 2020, ac, o ganlyniad, roeddent gallu magu hyder i symud ymlaen ar gyfer astudiaeth bellach. Lanswyd y rhaglen yng Ngwanwyn 2020 mewn ymateb i alwad Kirsty Williams, Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru, i helpu myfyrwyr i barhau i ddysgu mathemateg tra bod yr ysgolion ar gau oherwydd Covid-19. Dywedodd un o'r cyfranogwyr: *“Mae RhGMB wedi creu argraff arnaf yn ystod cyfnod y coronafirws yn y ffordd maen nhw wedi bod yn dosbarthu'r holl ddeunyddiau ac adnoddau hyn [...] byddwn yn bendant yn argymhell y sesiynau hyn i fyfyrwyr eraill. Mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn i mi. Bydd y profiad a'r arddull ddysgu hon yn bendant o fudd i unrhyw un sy'n mynd ymlaen i Addysg Uwch a bydd yn helpu gyda sut mae pobl yn mynd ati i fyd lle rydyn ni'n dibynnu mwy ar dechnoleg.”*

Lanswyd Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach a ariennir gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru yn 2010 ac mae'n cynnig cyrsiau datblygiad proffesiynol athrawon, adnoddau dysgu ar-lein, rhaglenni cyfoethogi ar gyfer myfyrwyr CA4 a Safon Uwch yn ogystal ag hyfforddiant byw ar-lein ac wyneb yn wyneb.

